

## **Ardaloedd cymunedol - grantiau ar gyfer syniadau mentrus sy'n helpu'r amgylchedd.**

### **Ynglŷn â'n cyllid**

Mae ardaloedd gwyrdd megis parciau a choetiroedd angen cyllid rheolaidd er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n eu defnyddio, yn eu caru nhw ac yn dibynnu arnynt. Mae hyn yn helpu i ddatblygu cymunedau cryfach ar gyfer heddiw a gwell amgylchedd ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn cynnig grantiau hyd at £10,000 i sefydliadau sy'n sicrhau buddion i'r gymuned a'r amgylchedd. Mae'r cyllid hwn ar gael i helpu sefydliadau i archwilio syniadau mentrus a allai gyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy ar gyfer eu hardal gymunedol.

### **O ble daw'r arian?**

Mae Co-op yn rhoi'r arian a godir drwy werthu bagiau siopa plastig untro 5c yn siopau Co-op Cymru.

### **Faint o gyllid sydd ar gael?**

Yn y rownd hon o gyllid, mae £100,000 ar gael, felly rydym yn gobeithio cynnig 10 grant gwerth hyd at £10,000 yr un. Rydym yn bwriadu cynnig rhagor o grantiau yn y dyfodol, unwaith yr ydym wedi adolygu'r gwersi o'r rownd hon.

### **A yw eich sefydliad yn gymwys?**

Rhaid i chi fod:

- Wedi'ch lleoli yng Nghymru.
- Yn berchen ar, yn rheoli, neu â mynediad at, ardal gymunedol y gall pobl ei defnyddio a'i mwynhau.
- Yn rhedeg eich sefydliad er budd y gymuned a'r amgylchedd, yn hytrach nag elw preifat. Os nad oes gennych statws elusennol, dylai eich dogfen gyfansoddiad neu lywodraethu ddangos bod eich sefydliad yn cael ei redeg er budd y gymuned.
- Â syniadau am weithgareddau mentrus a allai gynyddu eich incwm hirdymor.
- Yn cynnwys ystod eang o bobl leol yn eich gwaith, gan gynnwys aelodau mwy difreintiedig o'r gymuned.

### **Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano**

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

#### Ardaloedd Cymunedol

Rhaid i sefydliadau fod yn berchen ar, yn rheoli, neu â mynediad at, ardal gymunedol. Dylai eich syniadau ar gyfer gweithgareddau mentrus helpu i gryfhau eich sefydliad fel bod y gymuned gyfan yn gallu parhau i ddefnyddio a mwynhau'r ardal.

### Syniadau mentrus

Rydym eisiau cyllido sefydliadau sydd â syniadau ar gyfer gweithgareddau mentrus a fydd yn cyfrannu at eu cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Nid oes rhaid i chi gael yr holl atebion - dyma fydd y cyllid hwn yn eich helpu i'w archwilio. Fodd bynnag, rydych chi angen dangos bod hyn yn rhywbeth y mae eich sefydliad wedi ymrwymo iddo.

### Canlyniadau cymunedol

Rydym eisiau cyllido sefydliadau sy'n sicrhau buddion cadarnhaol i'r bobl sy'n byw yn eu cymuned. Os hoffech, gallwch gyfeirio at [Fynegai Lles Cymunedol Co-op](#) neu [Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#) i ddangos sut mae eich sefydliad yn ymateb i faterion yn eich cymunedol leol.

### Canlyniadau amgylcheddol

Rhaid i sefydliadau allu dangos eu bod yn sicrhau buddion amgylcheddol yn eu cymuned.

### Cyfranogiad y Gymuned

Rhaid i sefydliadau allu dangos sut y maent yn cynnwys aelodau'r gymuned yn eu penderfyniadau ynglŷn â sut y maent yn cael eu rhedeg, a pha weithgareddau a gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

### Amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym eisiau cyllido sefydliadau a all ddangos sut y maent yn agored a chroesawgar i'r gymuned gyfan, ac yn mynd ati'n rhagweithiol i gynnwys pobl a all wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan.

## **Ar beth allwch chi wario'r arian?**

Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r cyllid gael ei wario ar bethau a fydd yn helpu eich sefydliad i ddatblygu neu gynyddu gweithgareddau masnachu sy'n cynhyrchu incwm mwy cynaliadwy. Gallai hyn gynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- Astudiaethau dichonoldeb
- Ffioedd technegol/cyfreithiol
- Cymorth i gael caniatâd cynllunio
- Treialu syniad newydd

Rydym yn awyddus i glywed gan sefydliadau am yr hyn yr ydych chi'n ei deimlo a fydd fwyaf defnyddiol i'ch helpu i fod yn gynaliadwy yn y dyfodol fel y gallwch barhau i sicrhau buddion cymunedol ac amgylcheddol. Os yw cost eich prosiect yn fwy na £10,000, gallwch ddefnyddio ein cyllid i gyfrannu at y costau cyffredinol, ond rhaid i chi fod wedi sicrhau cyllid arall pan fyddwch chi'n gwneud cais.

## **Beth allwch chi ei ddisgwyl pan fyddwch chi'n gwneud cais?**

Mae ceisiadau yn agor ar **ddydd Mercher 1 Mai** ac yn cau am **hanner dydd (12pm) ar ddydd Gwener 21 Mehefin**.

Ar ôl y dyddiad cau, byddwn yn llunio rhestr fer o'r ceisiadau sy'n bodloni ein meini prawf orau.

Os nad ydych chi'n cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn rhoi gwybod i chi ym mis Gorffennaf na fyddwn yn mynd â'ch cais ymlaen i'r cam nesaf.

Os ydych chi'n cyrraedd y rhestr fer, bydd eich cais yn cael ei ystyried gan banel grantiau a fydd yn cyfarfod yng Nghymru ddechrau mis Awst. Bydd y panel yn cynnwys rhanddeiliaid Co-op ac arbenigwyr annibynnol. Ar y cam hwn, mae'n bosibl y gofynnir i chi am ragor o wybodaeth ynglŷn â'ch sefydliad i'n helpu i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad y panel ddiwedd mis Awst. Os ydych chi'n llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr cynnig grant gyda thelerau ac amodau.

Y dyddiad cynharaf y gallech ddechrau prosiect gyda'r cyllid hwn yw mis Medi 2019. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyllid hwn, [gallwch gysylltu â ni](#).

### **Sut i wneud cais**

Os yw'r cyllid hwn yn gweddu'n dda i'ch sefydliad, gallwch [wneud cais yma](#).